

**Cymdeithas y Cyfieithwyr Awst 06 Darlith Goffa Hedley Gibbard
Dyro Olau ar dy Eiriau: Geirfa'r Gymraeg rhwng 1750 a 1850
Prys Morgan**

Braint cael traddodi darlith er cof am Hedley Gibbard, yr oedd yr iaith yn golygu cymaint iddo. Roedd hefyd yn frodor o'r fro sydd drws nesaf i Faes yr Eisteddfod.

Dau beth gwrthgyferbyniol sydd wedi ysgogi'r sgwrs hon. Un yw ymosodiadau cas y Llyfrau Gleision yn 1847 ar y Gymraeg, gan ddweud fod yr iaith yn cadw'r Cymry mewn anwybodaeth, gan ei bod yn iaith amaethyddiaeth henffasiwn a diwinyddiaeth yn unig, tra bod y byd yn camu ymlaen trwy'r Saesneg. Yr ail beth yw'r ffordd yr oedd y Gymraeg yn ail hanner y 18fed ganrif a hanner cynta'r 19fed ganrif wedi cael ei newid yn llwyr gan eiriadurwyr, a gramadegwyr a llu o newyddiadurwyr, a chan y Cymry Cymraeg cyffredin – fel y dywedodd y Llyfrau Gleision, yr oedd y Cymry yn hoff iawn o'u hiaith beth bynnag oedd ei chyfyngiadau. Daeth geirfa newydd enfawr i'r Gymraeg yn y cyfnod dan sylw: yn wir, byddai'n amhosibl inni gynnal sgwrs ddeallus heddiw heb eirfa newydd y cyfnod.e.e. dwyieithog 1831, geirfa, 1858.

Sut y gwnaethpwyd hyn? Yn gyntaf trwy lu o eiriaduron dynion megis Thomas Richards o Langrallo (Thesaurus 1753), John Walters o Landocha yn y Fro (rhannau rhwng 1770 a 1795), geiriadur hirfaith William Owen Pughe yn y 1790au, a'i gyhoeddi mewn dwy gyfrol yn 1803, geiriadur y radical William Richards o Lynn 1798, a llawer o eiriaduron eraill nes cyraedd un Thomas Edwards Caerfallwch yn 1850. Maent i gyd yn wahanol – Walters yn ceisio rhoi fersiwn Cymraeg i bod ymadrodd Saesneg – mae ganddo bum colofn o brint man i gyfleu pob agwedd ar y ferf ' to set', a chanddo 19 o wahanol ystyron i'r gair 'fret'. Gwir fod llawer o'r miloedd o eiriau a ddyfeisiwyd gan Pughe yn chwerthinllyd, e.e. gogoelgrevyddusedd (some degree of superstitiousness), ond cofiwn yr un pryd am ei air ' dathlu'(1803) neu'r clyfrwch sydd yn ffordd Pughe o drawsnewid yr hen ymadrodd 'dawr'yn ' ni'm dawr' i greu ' diddordeb', a hwnnw wedyn yn mynd mewn i'r cylchgronau fel 'diddorol' yn y *Brud a'r Sylwydd* yn 1828, a diddordeb yn ein hystyr gyfoes ni yn y *Traethodydd* erbyn 1846-7.

Yr ail gymhelliad i greu geiriau yw fod llawer iawn o fyfyrion a phendroni ynghylch natur iaith ei hunan yn ystod y 18fed ganrif – mae llyfr ardderchog ar y pwnc gan Mrs Caryl Davies *Adfeilion Babel* (Caerdydd 2000). Canlyniad hyn oedd bod llawer o bropaganda wedi ei chreu o blaid y Gymraeg a'i hynafiaeth aruthrol yn mynd yn ol tu hwnt i oes y Derwyddon at oes y Patriairchiaid, a hyn yn codi ei statws. Ail ganlyniad i hyn oedd bod dynion yn gweld bod geiriau wedi eu creu o elfennau bychain, a dim ond i chi drawsosod neu siglo'r geirynnau hyn o gwmpas, gallasech greu geiriau newydd.e.e. yr hen air, 'disodli' o di a sawdl. Digon simsan oedd credoau rhai o'r damcanieithwyr hyn megis Rowland Jones neu John Cleland (awdur *Fanny Hill*), ac eto cafwyd ffordd syml a hylaw i eiriadurwyr ddyfeisio geirfa Gymraeg allan o elfennau'r iaith bresennol. Roedd Cleland, er enghraifft, yn credu bod Coffin yn Saesneg yn dod o'r Gymraeg ' cau-fi-yn'. Y drydedd elfen oedd ehangu mawr ar y wasg. Crewyd cyhoedd darllengar gan ysgolion fel rhai Griffith Jones yn ystod y 18fed ganrif, a chafwyd llu o gylchgronau tua diwedd y ganrif, a rheini'n dyblu a threblu yn ystod oes aur codi capeli anghydfurfiol rhwng 1800 a 1850. Nid yw'n syndod bod geirfa newydd at ddibenion y Wasg yn ymddangos: Ffugenw yn 1814, cylchgrawn 1776, dyddiadur 1800, geiriaduraeth 1794, cylchrediad 1809 (

er bod cylchrediad y gwaed yn dod yn 1772); geirdarddiad 1800, ieithwedd 1828, arddull yn ei ystyr fodern yn 1838, cylchlythyr 1776, rhifyn 1796 yn y *Geirgrawn*, a daw gohebiaeth yn 1800. Mae'n syndod nad yw Hunangofiant ddim yn dod cyn 1852 er bod yna hunangofiannau yn y Gymraeg tua diwedd y 18fed ganrif. Daw Newyddiadur yn 1815 i ddilyn ymddangosiad *Seren Gomer* yn 1814. Daw hawlfraint yn 1811, daw adolygu fel gair cyffredinol am edrych yn 1779 ac yna caiff ei addasu i olygu adolygu llyfrau yn 1806. Daeth yr un math o newid ystyr i'r gair golygydd erbyn 1818. Daw ystyr fodern i'r gair beirniad yn 1771 er ei fod yn golygu unrhywun sy'n barnu unrhywbeth cyn hynny. Daw beirniadaeth yn 1772, yn dangos gallu'r cyfnod i ddyfeisio geiriau sy'n fwy cyffredinol neu haniaethol. Daw aralleirio yn 1778, priod-ddull yn 1773, proflen yn 1780, pwyslais yn 1800, tansgrifiad yn 1794, a blaendal yn 1802.

Roedd gan y Gymraeg yr un gallu ag unrhyw iaith arall yn Ewrop i ddyfeisio geiriau newydd at bethau newydd: dyna i chi goleudy yn ymddangos ymhlith siaradwyr yn y 1730au ac yna yn y geiriaduron yn y 1770au. Chawn ni ddim Arddangosfa hyd 1848 (cyn yr Arddangosfa fawr yn 1851); daw chwyldro gan Richards o Lynn wrth son am Ffrainc yn 1798: gelliur mesur maint o newid pan ystyriwn fod Refoluwsion wedi bod yn iawn i ddisgrifio'r 'Glorious Revolution' yn 1688. Cyn gynted ag y cawn y bandiau pres, cawn y gair seindorf yn 1838. Daw Cyngerdd yn 1850, rhaglen hefyd yn 1850. Cawn y gair cadeirydd yn 1827 ar adeg y cyfarfodydd cyhoeddus i drafod estyn rhyddfraint i'r Pabyddion (1829). Nid yw'n syndod bod pwyllgor yn ymddangos yn 1834, gan fod pwyllgorau yn dechrau cyfarfod i drafod yr holl ddiwygiadau mawr cymdeithasol a gwleidyddol. Roedd y gair cennad yn hen ac yn golygu negesydd o ryw fath, ond erbyn 1798 a 1799 cawn cenhadwr a chenhadol, adeg ffurfio'r cymdeithasau cenhadol crefyddol. Pwysig i ni heddiw fod Pughe wedi dyfeisio darlith yn 1794 a daeth darlithydd wedyn yn 1836 – erbyn hynny roedd cymdeithasau yn anfon darlithwyr o gwmpas Cymru, e.e. ar bwnc Dileu Treth yr Yd. Neu ynghylch pwnc Dirwest 1836, hen air yn golygu hunanddisgyblaeth, ond o 1836 ymlaen daeth cymdeithasau dirwest i fodoli i gadw dynion rhag y ddiiod feddwol. Mae clwb yn mynd yn ol i 1759, ond dywed Pennant fod gweithwyr Sir y Fflint yn mynnu galw'r peth yn gymdeithas. Cawn cyfrinfa gan Pughe yn 1794 ac fe gymerir y gair gan undebau llafur ac eraill fel gair am 'Lodge'. Yn nechrau Methodistiaeth roedd Sasiwn yn ddigon da fel cymreigiad o Association, ond erbyn 1799 rhaid cael Cymdeithasfa. Dyfeisiwyd Cylchdaith yn 1778 ac aeth yn fuan mewn i eirfa'r Wesleyaid ac eraill yn derm technegol. Daeth gwladfa am goloni yn 1863 yn union pan oedd y Cymry yn dechrau cynllunio Patagonia. Un gair rhyfeddol iawn yn y Gymraeg yw amgueddfa 1793: pob iaith arall yn Ewrop wedi cadw at fersiwn o 'museum': gair wedi'i seilio ar amguedd, a ddiffinir yn y geiriaduron cynnar fel 'annwyl bethau'. Hyfryd ynte? Daeth rheilffordd fel y byddech yn disgwyl yn 1846 pan oedd y ffyrdd haearn yn dechrau lledu, a gorsaf yn 1848, heddlu yn 1858. Felly, roedd gan yr iaith ddigon o adnoddau i ateb pob gofyn.

A son am adnoddau, dyna air a ddaw yn 1783, daw cyfanwerthu a manwerthu yn 1770, mantoli yr un pryd. Chawn ni ddim cyfranddaliwr cyn 1848, ond daw methdal yn 1778 a methdalwr yn 1814. Ceir allforio yn 1834 (dim mewnforio cyn 1875, sydd braidd yn anesboniadwy). Daw cyfalaf yn 1849 a chyfalafwr yn 1850 – sydd yn agos iawn at

faniffesto Karl Marx. Daw ol-ddyled yn 1798 a phrydles mor hwyr ag 1850. Dyna flas i chi o eirfa economaidd y cyfnod.

Ond beth am wleidyddiaeth? Diddorol gweld bod y gair diriaethol cynrychiolwr yn dod yn 1794 ond bod y ffurf haniaethol cynrychiolaeth yn dod yn 1833 (ar ol y Diwygiad seneddol yn 1832). Mae gwladwriaeth yn hen air ond addaswyd ef gan Walkters yn 1783 i gyfleu 'republic', gan feddwl, mae'n fwy na thebyg, am America newydd. Mae gwlatgar hefyd yn hen, ond addaswyd hyn yn 'patriot' yn 1776 a dyfeisiwyd y gair haniaethol gwlatgarwch yn 1776. Mae'r gallu i droi oddi wrth y diriaethol at yr haniaeth yn arwyddo newid aruthrol yn y meddwl Cymreig – o leiaf, i'm tyb i. Mae'n arwydd o dwf deallusol mawr. Daw cenedlgarwch mor gynnar a 1821 ond does dim cenedlaetholdeb cyn 1858. Mae'n bwysig inni nodi bod Richards yn 1798 yn rhoi ce4nedligrwydd. Daeth cydraddoldeb yn 1797, a chyfansoddiadol yn 1830 yn ei ystyr wleidyddol. Mae dosbarth wrth gwrs yn hen air am unrhyw ffordd o ddsbarthu popeth, ond caiff ei sytyr wleidyddol yn ein cyfnod nio, dyna ddsbarth uchaf yn 1820, dosbarth gweithgar 1841, a dosbarth gweithiol mor hwyr ag 1860. Daw mwyafrif yn 1841 a lleiafrif yn 1848, daw sefydlogrwydd yn 1783. Roedd Iolo Morganwg yn ddyfeisiwr geiriau, gan ddysgu'r grefft gan Walters yn y 1770au yn ddyfyn ifanc, a chawn lawer o ddyfeisiadau yn ei lawysgifau – pleidlais tuag 1800 e.e., a ddaeth rywsut rywsut mewn i'r geiriaduron wedi hynny, a pleidleisio yn 1833. Daw politicaidd yn 1835-6 a poblogaeth mor gynnar a 1780. Daw prifweinigogaeth yn 1858. Rhyfed na ddyfeisiwyd gair am radical, ond llyncodd y Gymraeg y gair (Ffrangege) yn ddihalen yn 1836, ac yna daeth radicaliaeth. Daeth rhyddfreniad wrth son am ryddhau'r caethweision yn 1814, ac yna rhyddfrydedd i olygu Liberalism yn 1838, a rhyddfrydiaeth yn 1851. Gair trymaidd a lletchwith ydyw, gyda phob parch at Lloyd George ac eraill, ac nid yw'n syndod bod yn well gan y Cymry son am radicaliaeth, yn fy marn i. Gair bach arall diddorol yw safonol, a ddaw yn 1858.

Digwyddodd yr un ehangu ar yr eirfa ddiwylliadol. Hen air yw diwyllio, yn cyfeirio'n llythrennol at wneud y tir yn llai gwyllt. Ond wele'r gair yn ei ystyr fodern yn 1795 a diwylliedig erbyn 1846. Ystyr gwladwr yn 1768 yw 'rustic peasant', a 'boorish' yw ystyr gwledig, ond yn 1770 dyma'r gair yn newid ystyr i fod yn ddymunol o wledig, sef y baradwys a edmygir gan bobol y dref. Mae mynyddig yn ogystal yn golygu boorish neu wyllt, ac wrth gwrs, mater o gywilydd oedd ein mynyddoedd gwylltion nes bod yr ystyr yn newid yn nechrau'r 19fed ganrif ac erbyn 1856 mae Hen Gymru Fynyddig yn ail bennill ein hanthem genedlaethol yn dod yn sumbol o'r genedl. Yn y 18fed ganrif 'boorish old Wales' fyddai ystyr y geiriau. Amhosib credu y byddai unrhywrai yn dymuno canu anthem genedlaethol i 'Boorish Old Wales'. Mae mynyddwr yn ymddangos yn 1798 yr union flwyddyn y sonnir gyntaf am ddringo'r mynyddoedd er mwyn pleser – dyna a wneir gan William Bingley a Peter Bailey Williams o Lanrug ac a ddisgrifir gan Bingley yn ei lyfr taith. Ceir darlun yn 1764 ac fe'i ceir am 'portrait' yn 1773, a tirdarlun am 'landskip', a chawn darluniwr am artist yn 1794. Roedd arddun yn hen air am brydferth, bid siwr, ond fe greir y gair ardduniant yn 1798 i gyfleu 'sublime' a fathwyd yn Saesneg gan Edmund Burke tua deugain mlynedd ynghynt. Tua 1785 y bathwyd y gair llenyddiaeth gan Iolo Morganwg, ond roedd llenyddol yn bod ers 1776, ac yna wedyn daeth Iolo a'r gair llenor i olygu 'man of letters' tua 1815. Daw golygfa i

olygu darn o ddrama mewn theatr yn ystod y 18fed ganrif ond erbyn 1772 mae'n cyfleu'r tirlun – 'sylvan scenes'. Mae'r gair gwreiddioldeb yn dod yn gynnar yn Gymraeg yn 1786 ond cyfleu 'radicalness' y mae, beth bynnag yw ystyr hynny, ac ni cheir ei ystyr fodern hyd tua 1847. Roedd philosophi wedi bod yn iawn i'r hen Gymry ond daeth Iolo a'r gair athroniaeth mewn tua 1785 ac fe'i ceir yn y cylchgronau'n fuan tua 1796, gan ddisodli philosophi yn llwyr. Daw athrylithfawr gan Walters yn 1773, ac yn fuan fe fathwyd athrylith i olygu rhywun yr oedd ei alluoedd yn gwbl anesboniadwy, er mai llygriad ydyw o *intellectio* Lladin. Ceir y gair rhagdybiaeth yn 1822-3 ond roedd y ferf rhagdybio yn hen. Daw rhyddieithol yn 1780 a rhywiol yn 1803. Problem ddyrys iawn yw hyn, a oedd y Cymry yn methu son am rywioldeb cyn 1803 am eu bod heb y gair 'rhywiol'? Wel, mae yn bosib nad oedd neb yn trafod y pethau hynny yn ymenyddol, fel petae.

Beth am yr eirfa wyddonol yn y cyfnod hwn? Mae gwyddoniaeth yn ymddangos mewn llawysgrifau tua 1782 ond ni ddaw i lyfrau print cyn 1839, a gwyddonydd erbyn 1848 – gan gofio bid siwr bod y syniad o 'scientist' yn newydd yn Saesneg yn ogystal. Daw Gwyddoniadur yn 1852 (dyma gyfnod Thomas Gee a'i *Wyddoniadur*, bid siwr), awyrgylch mor gynnar a 1770, awyren yn 1793- nid am awyren fodern wrth gwrs ond am y balwn a oedd newydd ei ddyfeisio. Daw awyrdeithiwr am 'aeronaut' yn 1788. Daw seinyddiaeth yn 1798, darganfyddiad nid cyn 1827 er bod darganfod yn hen air. Cawn darganfyddwr yn 1833 a darganfyddiaeth yn 1842. Daeth disgyrchiant yn 1795, arbrofi yn 1817, arbrawf 1855. Mae cyfartaliad yn dod yn 1770 ac erbyn 1794 y mae'n cyfleu 'equation'. Daw dadansoddi yn 1833, a daearyddiaeth yn 1793 ond mae'n debyg mai yr hyn a boblogeiddiodd y gair oedd y clamp o lyfr gwych hwnnw, *Daearyddiaeth* Robert Roberts Caergybi yn 1816. Daeth daeareg yn 1832, cyffredinoli yn 1822, rhifydddeg mor gynnar a 1753, rhifyddwr yn 1757. Cofier bod y Llyfrau Gleision yn rhyfeddu at allu rhifyddol y Cymry yn 1847. Daeth fferyllydd yn 1810 yn ei ystyr fodern, a gair rhyfedd yw, yn tarddu o'r gred ganoloesol mai alcemydd oedd Fersil y bardd Lladin. Bydysawd – wel dyna air rhyfedd iawn i gyfleu 'universe', a thybio ei fod yn dod o 'byd', ond y gred heddiw yw ei fod yn dod o'r Lladin *baptizatio*, sef gwledydd Cred yn yr oesoedd canol. Roedd angen ar yr oes am y gair ac mi enillodd ei le. Daeth peiriannydd yn 1776 a pheirianwaith yn 1776. Yn 1718 roedd plantasiwn yn ddigon da i gyfleu 'plantation' o wladychiad yn America, ond erbyn 1778 roedd yn rhaid cael planhigfa i gyfleu plantation. Daeth pwysedd yn 1796, ac er bod rhesymeg yn hen air, mae rhesymegol yn codi yn 1776, a rhesymoliaeth yn 1803.

Un o'r meysydd mwyaf creadigol oedd yr holl eiriau i gyfleu y diddordeb cynyddol yn yr hunan: rwyf wedi cyfrif bod 358 o eiriau yn y Gymraeg yn dechrau gyda 'hunan-', y nifer helaethaf ohonynt yn dod o'r cyfnod tua 1750-1850, er bod y Piwritaniaid wedi gosod y patrwm. Dyna hunan-dwyll yn 1728, hunandybus 1732, hunaniaeth 1774, hunanadeiladaeth 1752, hunanadnabyddiaeth 1771, hunan-barch yn 1797 a hunanbwysig yn 1800. Daw hunan-elw yn 1775 i gyfleu rhywbeth fel hunanwelliant ydyw, ond nid wyf yn meddwl mai cyfieithiad o'r Saesneg ydyw. Ceir hunangyfiawn yn 1775 a hunanhyder yn 1741. Mae'n rhyfedd bod hunanlywodraeth yn golygu 'self-restraint' yn 1771 ac yn raddol mae geiriau tebyg tua 1837 yn cael yr ystyr o ymreolaeth. Mae hunanol yn weddol o hen, ond yn 1772 y daw'r gair haniaethol hunanoldeb.

Yn gysylltiedig a'r 'hunaneiriau' hynny y mae geirfa helaeth yn tyfu i fynegi pob agwedd ar y bywyd personol. Mae personoliaeth yn esiampl dda o newid o fod yn air technegol diwinyddol- llawer o ddadlau yn y cyfnod cynharach am berson Crist -, ond yn 1774 y mae'n cael ei ystyr gyfoes. Daw myfiaeth yn 1773, arddegau yn 1794, babandod yn 1762, cyfrifoldeb 1814, bachgendod mor ddiweddar ag 1850, ond oedolion ychydig bach ynghynt yn 1848. Ceir sylweddoli (1783) a gwireddu tua diwedd y 18fed ganrif, a dynoliaeth yn 1774, ond roedd yn air diwinyddol hyd tua 1800, yn yr ystyr o son am ddynoliaeth Crist. Mae dynolrwydd yn dod yn 1757 a dyngar yn 1776 fel 'lover of mankind', ac felly gall ddod yn philanthropic gyda Richards yn 1798, er iddo gael ei ddisodli gan dyngaredd erbyn 1833, a hwnnw a wreiddiodd. Daw mewdol yn 1793. Mae meddylgarwch yn dod mor gynnar a 1719, ond ei ystyr yw bod yn y felan, hel meddyliau. Erbyn 1772 mae wedi newid i fod yn feddwl dros eraill. Daw nodwedd a nodweddu yn 1803. Mae odrwydd braidd yn od, gan ei fod yn dod yn 1778 gan ei fod yn cadw'r estronair 'od' yn y gair newydd ei fathu. Iolo .gyda llaw, sydd biau'r gair 'estronair'. Mae ystyr parchusrwydd braidd yn ansicr yn 1783, ond yn fuan wedi hynny y daw i'w ystyr fodern. Mae pendantrwydd yn dod yn 1780. Wel dyna rai engreiffiau o'r helaethu mawr a ddigwyddodd yn y cyfnod Rhamantaidd ar yr eirfa i fynegi'r hunan, gan gyd-redeg bid siwr a datblygiadau tebyg yn yr ieithoedd Ewropeaidd eraill.

Roedd gofyn yn y cyfnod hwn am eirfa helaeth a geirfa o darddiad Cymraeg os yn bosibl, am fod y Cymry eu hunain yn parchu iaith yr oeddynt yn credu ei bod yn iaith hyna dynol-ryw. Gwyddent hefyd sut oedd dadelfennu geiriau ac ailgreu'rf elfennau yn eiriau newydd. Roedd ganddynt bapurau a chylchgronau fel *Seren Gomer* neu'r *Brud a'r Sylwydd* oedd yn defnyddio'r eirfa newydd. Mae'r holl fathu geiriau yma yn esiampl dda o'r oes oleuedig (gair eto o tua 1790), yn ogystal a'r oes ramantaidd. Roedd geirfa cefn gwlad bid siwr yn hen, ond yn y cyfnod hwn fe ddyfeisiodd y werin ddiwydiannol eirfa dechnegol nad wyf wedi son amdani, e.e. geirfa'r glowyr neu'r chwarelwyr. Eithr dyma ddwy esiampl o'r werin yn dyfeisio ei geiriau yn y cyfnod dan sylw: dyna i chi air y chwarelwyr am noddfa yn y graig yn ystod tanio'r ffrwydron, sef hen hen air 'cyfarchwel'. Yn olaf, gwelais mewn hen gapel yn Llansamled 'Oriolwyd 1830'. Nid yw'r r ferf orielu yn ein geiriaduron, ac wrth gwrs nid oes berf Saesneg 'I gallery, thou galleriest etc', ond roedd y werin uniaith Gymraeg wedi ei ddyfeisio'n falch am yr hyn a wnaethpwyd i lofft eu capel. Roedd y pethau hyn i gyd yn digwydd am fod y Gymraeg yn iaith fyw a'i siaradwyr yn tybio bod dyfodol iddi. Rwyf yn gobeithio fy mod wedi dweud digon i ddangos pa mor hurt a haerllug oedd gosodiadau'r Llyfrau Gleision am gyfyngiadau'r Gymraeg erbyn 1847.